Gwybodaeth a chymorth i ymwelwyr:

• Aberystwyth	(01970) 612125
• Aberaeron	(01545) 570602
• Y Borth	(01970) 871174
• Aberteifi	(01239) 613230
• Cei Newydd	(01545) 560865

Safwe Ceredigion: www.ceredigion.gov.uk

Cludiant Cyhoeddus:
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r gwasanaeth bysys lleol: 01545 572504.
Am wybodaeth am y gwasanaeth rheilffyrdd: 08457 484950.

Mae'r daflen yma yn un o gyfres o daflenni ar arfordir a chefn gwlad Ceredigion.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Chanolfan Groeso neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol:
Adain yr Arfordir a'r Cefn Gwlad,
Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA.

Gwnaed y gwelliannau i'r llwybrau sydd yn y daflen yma gan Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai.

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Gyngor Sir Ceredigion, 2001©

Cefnogwyd gan:
Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Ariennir y cynllun yn rhannol gan Gronfa Ddatblygu Rhanbarthau Ewrop

Darperir data map 1:10,000 yr Arolwg Ordnans sydd yn y daflen hon gan Gyngor Sir Ceredigion fel y trwyddedwyd gan yr Arolwg Ordnans er mwyn dangos trywydd y daith gerdded a nodir. Ni ellir copïo'r data sydd ar y map na'i ddefnyddio mewn unrhyw gyhoeddiad arall heb ganiatâd yr Arolwg Ordnans.

Tourist Information and Assistance:

• Aberystwyth	(01970) 612125
• Aberaeron	(01545) 570602
• Borth	(01970) 871174
• Cardigan	(01239) 613230
• New Quay	(01545) 560865

Ceredigion website: www.ceredigion.gov.uk

Public Transport:
For further information about local bus services, tel: 0870 6082608
Rail service information, tel: 08457 484950.

This is one of a series of leaflets featuring the coast and countryside of Ceredigion.

For further information contact a Tourist Information Centre or write to:
Coast and Countryside Section,
Department of Environmental Services and Housing,
Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA.

Improvements to paths included in this leaflet have been carried out by the Department of Environmental Services and Housing.

Designed and produced by Ceredigion County Council, 2001©

Supported by:
Countryside Council for Wales

This scheme is partly funded by the European Regional Development Fund

The Ordnance Survey 1:10,000 map data included in this leaflet is provided by Ceredigion County Council under licence from the Ordnance Survey in order to show the course of the walk featured. The map data may not be copied or used in any other publication without the permission of the Ordnance Survey.

CEREDIGION



NEW QUAY to CWMTYDU
Along the Heritage Coast



CEINEWYDD i GWMTYDU
Taith gerdded ar hyd yr Arfordir Treftadaeth

25c/p

YR ARFORDIR A'R CEFN GWLAD
COAST AND COUNTRYSIDE

Craig yr Adar (Bird Rock)

Mae'n werth edrych tua'r awyr yn ogystal â thua'r môr wrth gerdded ar ben y clogwyni. Mae'r graig fan yma yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond mae'r arfordir ar ei hyd yn llawn nythfaoedd i ddenu'r adarwyr yno. Edrychwch am y frân goesgoch a chlochdar y graig ar hyd y llwybr. Yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf, fe welwch weilch y penwaig a gwylogod yn pysgota am bysgod yn y dr oddi tanynt. Dyma le da i edrych am ddolffiniaid hefyd.

Gellir gweld bywyd gwyllt y Bae o hen wylfa Gwylwyr y Glannau ger Craig yr Adar. Mae dyfroedd ar hyd yr arfordir yn rhan o Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion. Mae'r Dolffiniaid Trwynbwl ym Mae Ceredigion wedi denu llawer o bobl, ymwelwyr a chadwriaethwyr i'r ardal ac mae wedi ei chydnabod bellach am ei phwysigrwydd cadwriaethol Ewropeaidd.

Byrlip

Dyma ddyffryn cudd hyfryd gyda llecyn o goed llydanddail cynhenid lle daw'r Afon Ferwig a'r Afon Soden ynghyd. Mae yna doreth o flodau gwyllt i'w gweld yno yn y gwanwyn.

Criag yr Adar (Birds Rock)

It's worth scanning the sky as well as the sea on this fine clifftop walk. This particular rock is a Site of Special Scientific Interest, but this whole stretch of coastline has riches in store for birdwatchers. Look out for chough and stonechat along the cliff walk. During spring and early summer, razorbills and guillemots search for fish in the waters below. This is also a good location to look out for dolphins.

The wildlife of the Bay can be seen from the renovated former Coastguard lookout near Birds Rock. The coastal waters are part of the Cardigan Bay Special Area of Conservation (SAC). Cardigan Bay's population of Bottlenose Dolphins has long attracted the interest of local people, visitors and conservationists, and has now been recognised for its European conservation importance.

Castell Bach

Mae Castell Bach a'i gwrthgloddiau a godwyd i amddiffyn ei drigolion o'r Oes Haearn yn dyddio'n ôl i gyfnod oddeutu 300CC. Yn anffodus, mae'r rhan fwyaf o'r gaer wedi diflannu oherwydd erydiad y môr.

Cwmtydu

A secluded cove with a predominantly shingle beach. Both folding and faulting are exposed in the bands of shales and grits that form the cliffs. These rocks were laid down 400 million years ago in the Silurian era. The weaker spots caused by the buckling and crumpling have been eroded into caves. These were used to hide smuggled brandy in the 18th century. The presence of limekilns indicates a more legitimate trade. Common skippers, tortoise-shells and painted ladies are some of the butterflies found here.

I mewn o'r arfordir, yng Nghae'r Llan, saif Eglwys Saint Tysilio ar safle hynafol ac mae'n debyg y daeth Saint Tysilio i'r ardal i ledaenu Cristnogaeth yn y chweched ganrif. Pan gafodd yr eglwys ei hadfer yn y 1890au, canfuwyd carreg fawr gynhanesyddol, ond cafodd ei hailgladdu ger gât yr eglwys. Mae llecyn mwdlyd yn y cae i'r gogledd o'r eglwys yn safle i hen ffynnon sanctaidd. Yr hen goel oedd bod y dr yn dda i goesau blinedig!

Cwmtydu

Traeth tawel bychan â cherrig mân yn bennaf. Mae'r plygiannau a'r ffawtiau i'w gweld yn y bandiau o siâl a grut sy'n rhan o'r clogwyni. Ffurfiwyd y creigiau hyn 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl yn y cyfnod Silwraidd. Erydwyd y mannau gwan a achoswyd gan y creigiau yn ystumio ac yn crebachu yn ogofâu. Defnyddiwyd yr ogofâu hyn i guddio brandi a smyglwyd yn y 18fed ganrif. Mae'r odynau calch yn arwydd o fasnach fwy cyfreithlon. Ymhlith y gloynnod byw a welir yma mae gwibwyr, gloynnod trilliw a gloynnod yr ysgall.

Byrlip

The delightful hidden valley with a patch of native broadleaved woodland, where the waters of the Afon Ferwig mingle with those of the Afon Soden. An array of wild flowers can be seen in spring .

Castell Bach

Castell Bach is dated to about 300 BC, its earthworks providing defence for its Iron Age inhabitants. Unfortunately, much of the fort has been lost by erosion to the sea.

Inland, at Cae'r Llan, St Tysilio's Church occupies an ancient site, probably Christianised by Saint Tysilio in the sixth century. When the church was restored in the 1890s, a large prehistoric stone was discovered, only to be re-buried near the churchyard gate. A muddy patch in the field to the north of the church marks an old holy well. Its water was said to be good for sore legs!

Yn seiliedig a'r Fapiau 1:10,000 yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. ©Hawlfraint y Goron. Y mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achosion sifil. Cyngor Sir Ceredigion . Rhif Trwydded LA09006L, 2001

Based upon the Ordnance Survey 1:10,000 mapping with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Ceredigion County Council. License No LA09006L, 2001

Allwedd ar Gyfer y Map

Map Key

- Trywydd wedi'i ddynodi ar gyfer cerddwyr — Promoted route for walkers
- Ffyrdd — Roads
- Maes Parcio — Car Park
- Toiled — Toilet
- Canolfan Croeso — Tourist Information Centre

Ceinewydd – Cwmtydu

Cewch weld golygfeydd godidog o Fae Ceredigion ar hyd y llwybr yma. Mae'r llwybr ar ei hyd oddeutu 8 milltir / 13 km. Mae yna ffordd fyrrach hefyd o naill ai Ceinewydd neu Gwmtydu. Bydd yn rhaid dringo ychydig o lethrau a chamu dros ambell gamfa ar bob un o'r llwybrau uchod.

Mae'r llwybr yn dilyn trywydd Arfordir Treftadaeth Ceredigion mewn mannau. Ceisia rheolwyr yr Arfordir Treftadaeth ddiogelu a gwella'r dirwedd a'r bywyd gwyllt ar hyd yr arfordir yn ogystal â rhoi cyfle i'r cyhoedd ddefnyddio a mwynhau'r llwybrau. Mae yna gyswllt hefyd rhwng y llwybr â thir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghraig yr Adar, Cwm Soden a Chwmtydu.

Arolwg Ordnans Map Landranger – 1145
Arolwg Ordnans Map Explorer – 198

Cofiwch ddilyn y Cod Cefn Gwlad.
Cymerwch ofal ar hyd y llwybrau ar ben y clogwyni.

Ordnance Survey Landranger Map 145
Ordnance Survey Explorer Map 198

Please remember to follow the Country Code.
Take care on cliff-top paths.

New Quay to Cwmtydu

This walk gives breathtaking views of Cardigan Bay. The full circular walk is approximately 8 miles / 13 km long. Shorter circular walks from either New Quay or Cwmtydu can also be taken. All routes include some steep climbs and stiles.

The route follows a section of the Ceredigion Heritage Coast. Heritage Coast management seeks to conserve and enhance the landscape and wildlife of the coast as well as providing opportunities for public access and enjoyment. The route also links National Trust land at Birds Rock, Cwm Soden and Cwmtydu.

New Quay

Fine beaches and attractive cliffs have combined to make New Quay a popular

Ceinewydd

Bu traethau braf a chlogwyni trawiadol Ceinewydd yn fodd i'w gwneud yn gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr. Cyfeiria'r enw at 'gei newydd' a adeiladwyd cyn 1704. Erbyn dechrau'r 1800au, câi 400 o ddynion eu cyflogi gan y diwydiant adeiladu llongau. Ar ôl cael enw iddo'i hun o ganlyniad i'r fasnach anghyfreithlon mewn brandi, gwin, tybaco a the a hefyd y fasnach lewyrchus fwy cyfreithlon ei natur adeiladwyd y pier ym 1835. Roedd calchfaen ymhlith y prif nwyddau a gâi eu mewnforio (er mwyn ei daenu ar gaeau'r ardal) ac roedd pysgota am ysgadan yn bwysig hefyd. Heddiw daw ymwelwyr i'r ardal yn y gobaith o weld morloi, dolffiniaid a llamidyddion.

Mae bad achub Ceinewydd yn aml ar gael i'r cyhoedd ei weld. Ar Fedi 21ain 1891, aeth y cwch o'i flaen yn sownd yn y tywod pan aeth y Bronwen i lawr ar Benrhyn y Cware. Roedd y sgwner newydd yma ac iddi dri hwylbren ar ei ffordd o Ardrossan i Rio Grande pan gafodd ei gyrru ar y creigiau gan wynt cryf o'r gorllewin. Llwyddodd pawb oedd arni i ddianc gyda chymorth rhaffau a daflwyd atynt o'r sgwner i'r dynion ar y lan. Treuliodd Dylan Thomas rywfaint o'i amser yma gan roi coel i'r honiad y gallai hudoliaeth Ceinewydd fod wedi ysbrydoli rhai elfennau o Dan y Wenallt a leolwyd ym mhentref dychmygol Llareggub.

holiday resort. The name refers to a 'new quay' built before 1704. By the early 1800s, 400 men were employed in shipbuilding. After having gained notoriety for its contraband brandy, wine, tobacco and tea, a thriving legitimate trade led to the construction of the pier in 1835. Limestone was a major import (used to dress local fields) whilst herring fishing was of great importance. Today visitors come in the hope of spotting seals, dolphins and porpoises.

New Quay's lifeboat is often on public display. On 21st September 1891, its predecessor became stuck in the sand when the Bronwen was wrecked on Quarry Head. This new, three-masted schooner was on its way from Ardrossan to Rio Grande when a strong north westerly wind drove her onto the rocks. All those aboard managed to escape with the aid of ropes thrown from the schooner to men ashore. Dylan Thomas spent some time here, giving credence to the claim that New Quay's picturesque charms may have inspired at least part of Under Milk Wood, set in the fictional Llareggub.